PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 22 CHWEFROR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Cunnah, Hopkins a/ac Molik |
| | Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

110 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), y Cynghorydd Mia Rees, y Cynghorydd Mike Phillips a Mia John (Cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd).

111 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

112 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 18 Ionawr fel cofnod cywir o'r cyfarfod fel y cynigiwyd gan Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr) ac eiliwyd gan y Cynghorydd Robert Hopkins.

113 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2020 - 2025 A CHYNIGION CYLLIDEBOL DRAFFT 2022 - 2023

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Chris Lee (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau) ac Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i’r Aelodau ar:

- Y Cynllun Corfforaethol;
- Covid 19 – cyd-destun y flwyddyn bresennol a chymorth Llywodraeth Cymru (LlC);
- trosolwg o’r setliad dros dro;
- y gyllideb refeniw ddrafft, gan gynnwys arbedion, goblygiadau cyflogeion cynilion a thwf polisi, ffioedd a chostau;
- Defnyddio'r mecanwaith cadernid ariannol yn 2021/22;
- Cronfeydd Wrth Gefn;
- y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) 2023/24 – 2026/27 a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT);
- Datblygu Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 – 2026/27;
- Strategaeth Gyfalaf Cyngor Caerdydd 2022/23; a
- Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf 2022/23 - 2026/27 ac Arian

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch a oedd colli arian yr UE yn ôl o ganlyniad i Brexit eisoes yn cael effaith neu a fyddai'n cael effaith yn y blynyddoedd i ddod yn unig. Cafodd yr aelodau wybod ei bod hi'n anodd gwahaniaethu rhwng effeithiau Brexit a Covid. Bu problemau gyda phrinder llafur a symud nwyddau ar draws ffiniau cenedlaethol sydd wedi effeithio rhaglenni'r Cyngor. Dywedodd swyddogion fod arian wedi'i neilltuo i dalu am bwysau pris tymor byr a hir.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd y codiad o £9.3 miliwn i'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig yn cynrychioli cynnydd tymor real neu a oedd y twf yn nifer y disgyblion a chostau gweithwyr yn cyfrif amdano. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau ei fod yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion.

- Holodd yr Aelodau a oedd diwedd y Gronfa Galedi yn golygu y byddai'n rhaid talu costau parhaus gan gyllidebau ysgolion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y gyllideb yn cyfrif am safonau newydd ym mhob gwasanaeth, ond lle roedd pwysau sylweddol o ran Cyfarpar Diogelu Personol neu drefn lanhau er enghraifft byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn rhannol drwy arian wrth gefn.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar oblygiadau'r polisi cenedlaethol ar brydau ysgol am ddim a phryd y byddent yn dod i'r amlwg, ac ymhellach beth fyddai'r goblygiadau ar y Grant Datblygu Disgyblion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd y manylion llawn yn amlwg eto ond ei bod yn ymddangos mai dyhead Llywodraeth Cymru (LlC) oedd na fyddai unrhyw Awdurdodau Lleol yn waeth eu byd o ganlyniad i'r polisi. Byddai'r newid i brydau ysgol am ddim yn cael ei gyflwyno'n raddol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion.

- Gofynnodd yr aelodau pryd roedd LlC yn debygol o roi rhybudd cynharach ar grantiau yn dod i mewn i ysgolion, ac a fyddai llacio ar ysgolion yn cofnodi gwargedion cyllidebol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod gwargedion cyllideb ysgolion, mewn rhai achosion, yn gysylltiedig â derbyn grantiau'n hwyr, ac y gallai hynny ddigwydd eto. Mae'r Cyngor yn bragmatig ynghylch gwargedion cyllideb o ganlyniad i dderbyn arian ychwanegol, ond mewn achosion prin, lle nad oes gan ysgol gynllun ar gyfer defnyddio'r gwarged, ni allai'r Cyngor ddiystyru ymyrraeth bosibl.

- Trafododd yr Aelodau ymgysylltiad pobl ifanc yn yr ymgynghoriad ar y gyllideb a sut y byddai effaith yr arian sy'n cael ei wario ar brosiectau pobl ifanc yn cael ei fesur. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, er bod yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y gyllideb wedi bod yn siomedig, ystyriwyd yr holl wybodaeth oedd ar gael am effaith y pandemig ar bobl ifanc. Mewn perthynas â pherfformiad a chanlyniadau, ceisir gwybodaeth gan gyrff allanol yn ogystal â ffynonellau'r Cyngor er mwyn nodi'r mentrau mwyaf effeithiol.

- Mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar yr arbedion a ragwelwyd o wariant allanol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod disgwyl i'r prif arbedion godi o'r polisïau presennol mewn perthynas â lleoliadau maeth a gwahanol lefelau o ofal ataliol.

- Holodd yr Aelodau am wytnwch y refeniw ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Rhaglen Gyfalaf wedi cael ei phrofi am wytnwch. Mae'r targed cyfalaf o £40 miliwn wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae'n cynnwys yr ysgol ac asedau eraill. Mae'r Cyngor wedi bod yn ddoeth yn ei ragdybiaethau ynghylch pryd y bydd yn cael ei gyflwyno. Mae dadansoddiad sensitifrwydd ynghylch cyfraddau benthyca wedi'i gynnal. Yn y rhaglen ysgol bu llithriad sylweddol o ran adnewyddu asedau a'r flaenoriaeth yw mynd i'r afael â hyn. Mewn perthynas â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion bu sgyrsiau gyda LlC sydd wedi galluogi prynu safle Tŷ Glas.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad mewn perthynas â'r gyllideb net ar gyfer Gwasanaethau Plant ar gyfer 2022-23 a sut mae'n cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cynnydd sylweddol; £8.4 miliwn. Cafwyd sgyrsiau rhwng Gwasanaethau Plant a Chyfrifyddiaeth ynghylch cynllunio a darparu gwasanaethau a chyfrifo costau, arbedion tybiedig a buddsoddiadau gofynnol.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar staffio yn y Gwasanaethau Plant. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau fod buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol eisoes wedi'i gostio.

- Holodd yr Aelodau pryd y byddai canfyddiadau'r Adolygiad Blaengar i Wasanaethau Ieuenctid ar gael i lywio penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio arian a neilltuwyd o dan y Mecanwaith Cadernid Ariannol, ac a fyddai gwariant ychwanegol untro blynyddol ar Wasanaethau Ieuenctid yn parhau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r adolygiad yn newid y ffordd y mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn gweithredu. Mae gwariant ychwanegol unwaith ac am byth wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd amgylchiadau heriol y pandemig.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd) a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod i roi gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â chynigion y gyllideb a rhannau perthnasol o'r Cynllun Corfforaethol fel y maent yn ymwneud â **Gwasanaethau plant.**

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau am y goblygiadau ar waith y Cyngor gyda darparwyr cartrefi plant a lleoliadau y tu allan i'r sir o ymrwymiad LlC i roi diwedd ar elw yn y sector gofal plant. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod ystod eang o ddarpariaeth wedi ei hagor dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd mwy o bwyslais gan Lywodraeth Cymru ar ddarparu adnoddau ar gyfer darpariaeth gofal plant. Roedd sylwadau wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru gan benaethiaid y Gwasanaethau Plant ledled Cymru yn nodi, er bod cytundeb mewn egwyddor gyda'r polisi, ei bod yn bwysig ei fod yn raddol i osgoi diffyg yn y ddarpariaeth. Mae ymchwil yn cael ei wneud i bennu model cynaliadwy ar gyfer Caerdydd. Sefydlwyd cyfarfodydd gyda darparwyr i archwilio modelau amrywiol a rhoi sicrwydd i ddarparwyr am awydd parhaus y Cyngor i weithio gyda nhw. Y nod yw gweithio tuag at wella canlyniadau i blant. Mae gan fentrau yn y sectorau preifat a dielw y profiad i gynorthwyo'r Cyngor i sefydlu ei gartrefi gofal ei hun. Bydd angen rhaglen hyfforddiant genedlaethol i fynd i'r afael â phrinder staff a

chystadleuaeth ar gyfer staff rhwng awdurdodau lleol.

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cyngor yn dibynnu'n fawr ar y sector annibynnol am faethu ac o ganlyniad nid yw'n bosibl symud i fodel mewnol yn unig mewn cyfnod byr heb gynnydd sylweddol mewn cyllid. Roedd pryderon wedi eu mynegi yn y cyfryngau am y diffyg cyllid i gadw plant yn y teulu. Mae'n bwysig canolbwyntio ar anghenion teuluoedd â phlant ag anableddau.

- Holodd yr Aelodau am y risg na ellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Adolygu. Atgoffwyd yr Aelodau bod rôl y Canolfannau Adolygu yn cael ei ehangu i gwmpasu pob plentyn ar gynlluniau gofal gyda'r nod o ddarparu'r lefel briodol o gymorth cyn gynted â phosibl. Mae risgiau yn gysylltiedig ag argaeledd cymorth a phrinder staffio.

- Holodd yr aelodau am y risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid lleoli priodol a newid y cydbwysedd gofal. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y farchnad wedi dod yn fwy heriol yn ystod yr wythnosau diwethaf a bu'n rhaid gosod plant ymhellach ymaith. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad yn wythnosol.

- Holodd yr Aelodau nifer y lleoedd ychwanegol ar gyfer plant a gyflwynwyd yn y flwyddyn bresennol a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd swyddogion fod Oakway yn darparu dau le brys i blant sy'n aros am eu hasesiad 12 wythnos. Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau cyfalaf i ddarparu llety brys a seibiant tymor byr ychwanegol. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn mabwysiadu Model Gogledd Swydd Efrog i ddatblygu llety preswyl ‘Ar Ffiniau Gofal’ a model ‘Prif Ganolfan a Lloerennau’ i ddarparu cymorth cofleidiol amlasiantaeth i blant sy'n symud ymlaen o ofal. Bu trafodaethau hefyd gyda dau ddarparwr cenedlaethol i sicrhau mynediad at welyau pellach.

- Roedd yr Aelodau'n falch o nodi recriwtio staff yn llwyddiannus ond yn gofyn am ragor o wybodaeth am gadw staff. Cymeradwyodd swyddogion waith staff oedd yn ymwneud â recriwtio. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod pethau wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol o ran cadw staff; gwnaed pob ymdrech i annog aelodau o staff i aros yn eu swydd, ond yn naturiol roedd rhywfaint o fynd a dod. Roedd staff preswyl bellach wedi'u cynnwys mewn recriwtio a chadw ac roedd mwy o bobl wedi dod ymlaen i weithio mewn cartrefi plant.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau); Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes); Mike Tate (Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol a Dysgu Gydol Oes), Neil Hardee (Pennaeth Gwasanaethau i Ysgolion); a Suzanne Scarlett (Rheolwr Gweithredol, Partneriaethau a Pherfformiad) i'r cyfarfod i roi gwybodaeth i aelodau am y cynigion cyllidebol a’r rhannau perthnasol yn y cynllun corfforaethol o ran **Addysg**.

Gofynnwyd i’r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am y mesur newydd ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion. Cafodd yr aelodau wybod nad oedd unrhyw wybodaeth bellach gan LIC. Mae Aelodau'r Cabinet wedi codi'r

mater gyda Gweinidogion.  Er bod cefnogaeth i'r egwyddor, mae'n hanfodol bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu.

- Trafododd yr aelodau a oedd y Cyngor yn ddigon beiddgar wrth gynllunio ar gyfer lleoedd ADY ychwanegol.  Dywedodd swyddogion fod y Cyngor yn gweithio tuag at y wybodaeth a gynhwysir yn y data sydd ar gael. Rhagwelir twf yn y dyfodol, a bydd y Cyngor yn ymateb yn briodol. Rhagwelir y bydd sefydlu darpariaeth bellach yn cael ei chyfyngu gan nodweddion ffisegol safleoedd.

- Canmolodd yr Aelodau y Gyfarwyddiaeth ar adroddiad cadarnhaol haeddiannol gan Estyn.  Cyfeiriodd yr Aelodau at argymhelliad Estyn am gymorth cwnsela ychwanegol a holwyd am yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r cymorth ychwanegol hwnnw, ac a oedd y cymorth hwnnw'n gynaliadwy. Dywedodd swyddogion fod ychwanegiad yn cael ei gynnwys yn y gwasanaeth.  Bydd y Cyngor yn ymateb i'r argymhelliad maes o law.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch pryd y byddai canlyniad yr adolygiad blaengar o wasanaethau ieuenctid ar gael a fydd yn llywio defnyddio adnoddau ychwanegol.  Dywedodd swyddogion y byddai'r adolygiad yn dechrau ar 7 Mawrth 2022; byddai'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau ychwanegol a dderbynnir yn setliad y Gyllideb a bydd yn cael ei gynnal yn ystod pythefnos cyntaf mis Mawrth.

- Holodd yr Aelodau a oedd y gwerthusiad o Gwên o Haf ar gael a sut y disgwyliwyd i'r rhaglen gael ei datblygu yn dilyn y gwerthusiad hwnnw. Dywedodd swyddogion y byddai'r gwerthusiad yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor unwaith y bydd ar gael.  Bydd y gwerthusiad yn bwydo i mewn i weithgareddau'r haf sydd i ddod.  Mae'n annhebygol y bydd cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru eleni a bydd y gweithgareddau felly'n cael eu targedu at helpu'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar gyfran gyllidebol y Gwasanaethau Plant ac Anghenion Addysgol Arbennig y tu allan i leoliadau sirol. Dywedodd swyddogion nad oedd yr wybodaeth ar gael ond lle cafodd plentyn ei leoli y tu allan i'r sir a'i fod â Datganiad o AAA y byddai'r gost o ddiwallu'r anghenion hynny yn cael ei dalu gan yr awdurdod lle y mae'r cymorth yn digwydd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 114 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau; Mike Tate, Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol a Dysgu Gydol Oes; a Suzanne Scarlett (Rheolwr Gweithedol Partneriaethau a Pherfformiad) i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â'i waith gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Caerdydd, yn enwedig mewn perthynas ag Ymrwymiad Caerdydd a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor wedi cyfarfod ag uwch arweinwyr yn y Consortiwm ac wedi rhannu ei amcanion gyda nhw a fydd yn bwydo i mewn i amcanion perfformiad ar gyfer ysgolion.

- Holodd yr Aelodau a oedd uwch reolwyr wedi trafod gyda phenaethiaid a Llywodraeth Cymru sut y bydd ysgolion yn mynd i'r afael ag absenoldeb fframwaith atebolrwydd ac asesu cenedlaethol. Dywedodd swyddogion fod gan y Cyngor bellach system fwy deallus ar gyfer gwerthuso ysgolion ac y byddai'r fframwaith atebolrwydd ac asesu newydd yn cael ei ymgorffori ynddo pan fydd ar gael. Mae'r Cyngor yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ar gynnydd y fframwaith newydd.

- Trafododd yr Aelodau y cymorth sy'n cael ei ddarparu i ysgolion i gymryd rhan yn y rhaglen Ysgolion sy'n Parchu Hawliau gyda mwy na 70 o ysgolion yn cymryd rhan. Mae cryfder a chapasiti cyrff llywodraethu yn cael eu hadeiladu i'w galluogi i gymryd rhan mewn dwyn ysgolion i gyfrif. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag Arsyllfa Hawliau Dynol Prifysgol Abertawe ac UNICEF UK i sicrhau bod ei waith yn cael ei werthuso'n briodol ar hawliau plant.

- Holodd yr aelodau beth oedd yn atal gweddill yr ysgolion rhag ymuno â'r rhaglen Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Dywedodd swyddogion fod cyfranogiad yn y rhaglen yn cynyddu'n raddol. Roedd cymorth yn cael ei gynnig i ysgolion i'w galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen a'u cynorthwyo i symud ymlaen trwy'i chamau. Mae cymorthdaliadau wedi cael eu cynnig i helpu gyda ffioedd cofrestru. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd pob ysgol yn ymuno â'r rhaglen yn y pen draw.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y cyfathrebu â rhieni mewn perthynas â gwerthuso ysgolion a diwygio darpariaeth ADY. Dywedodd swyddogion fod y system werthuso yn fwy deallus a bod angen cyfathrebu gofalus â rhieni. Bydd angen dull ysgol i sicrhau bod rhieni'n deall y system newydd. Mae monitro'n dangos bod 92% o ysgolion yn barod ar gyfer diwygio'r ADY. Mae'r diwygiad ADY yn cael ei gefnogi gan y Gyfarwyddiaeth a Chonsortiwm Canolbarth y De.

- Holodd yr Aelodau am gynnydd mewn perthynas ag ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'r dull Tîm o amgylch yr Ysgolion. Dywedodd swyddogion fod cynlluniu peilot yn cael eu cynnal mewn tair ysgol ar hyn o bryd. Byddai angen asesu capasiti ar gyfer cyflwyno hyn ymhellach yn y dyfodol. Bydd angen cysylltiad â dull lleol y Gwasanaethau Plant.

- Gofynnodd yr Aelodau am waith cyflwyno’r cyllun peilot a gweithredu strategaeth Caerdydd 2030 a chawsant eu cynghori bod y strategaeth yn cael ei hailasesu yn sgil y pandemig. Nid newid y weledigaeth yw'r bwriad ond ailddatgan yr amcanion tymor byr i ganolig er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf yng ngoleuni'r wybodaeth bresennol. Bydd y Datganiad o Fwriad yn cael ei ailgyhoeddi gyda chynllun gweithredol 3 blynedd yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i

sicrhau cydlynu rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n dilyn y cwricwlwm newydd. Dywedodd swyddogion fod y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ardal, felly bydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr un clwstwr yn gweithio ar gwricwlwm tebyg sy'n seiliedig ar sgiliau. Mae cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn bwysig wrth adeiladu'r cwricwlwm newydd. Gall y cwricwlwm amrywio rhwng gwahanol ysgolion cynradd tra'n cynnwys cydrannau tebyg. Er bod y gwaith gweithredu wedi'i ohirio, mae ysgolion yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag ato.

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod offeryn hyfforddi llywodraethwyr yn cael ei ddefnyddio i archwilio'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan lywodraethwyr.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 115 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) CAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes) Richard Portas (Cyfarwyddwr Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion) a Catherine Canning (Swyddog Polisi Cynllunio Trefniadol Ysgolion) i'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem hon.

Mae gofyn am awdurdodiad i adroddiad y Cabinet i fwrw ymlaen i gyflwyno'r CSGA terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr aelodau am y capasiti o ran adnoddau corfforol i gyflawni yn erbyn targedau CSGA. Dywedodd swyddogion fod y targed o 50% o ysgolion yn gyfrwng y Gymraeg o fewn cyd-destun cyfradd genedigaethau sy'n gostwng. O ran adeiladau a safleoedd roedd yn fater o edrych ar gynigion yn synhwyrol o fewn y cyd-destun hwn.

- Trafododd yr Aelodau ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r ystod oedran 3-18 oed, gan gynnwys mewn addysg uwch a chysylltu â'r byd gwaith. Dywedodd swyddogion fod Deilliant 5 o'r WESP yn ymdrin â hyn. Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith erbyn mis Medi 2022 a bydd adolygiad ffurfiol ar ôl 2 flynedd. Bydd cysylltiad agos â phrifysgolion a cholegau wrth ddatblygu'r cynigion. Mae angen ymchwil i ddarganfod y llwybrau dysgu a'r penderfyniadau a wneir yn y blynyddoedd cynnar a thrwy gydol addysg a'r cyfnod pontio i'r gwaith. Mae'r Cyngor yn darparu elfennau ymchwil, cynllunio a gweithredu. Mae'r cynllun 10 mlynedd yn rhoi cyfle ar gyfer cynllunio strategol hirdymor.

- Mynegodd yr aelodau bryderon am yr hyn a oedd angen i uwchsgilio'r proffesiwn addysgu er mwyn gallu cyflawni targedau'r CSGA, yn enwedig yng nghyd-destun Covid. Dywedodd swyddogion fod disgwyl Cynllun Datblygu'r Gweithlu Cenedlaethol o fewn ychydig fisoedd. Ar hyn o bryd mae diffyg dulliau cyson i gofnodi a all aelodau o'r gweithlu addysgu naill ai addysgu'r Gymraeg neu addysgu'n rhugl yn y Gymraeg. Mae angen ymchwil i ddarganfod dull cofnodi cyson a bwydo'r wybodaeth i'r sefyllfa polisi cenedlaethol.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am gynlluniau i recriwtio athrawon Cymraeg da i ysgolion cyfrwng Saesneg. Dywedodd swyddogion fod yn rhaid cadw mewn cof wrth ystyried ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yr elfen gweithlu a bod angen twf cynaliadwy mewn hyfforddiant ledled Cymru. Mae uned drochi gref ar gyfer staff addysgu ac mae cyfle i ehangu ei chwmpas.

- Nododd yr Aelodau fod hyfforddi a recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith yn broblem ledled Cymru, a bod Caerdydd ar y blaen o'i gymharu i rai Awdurdodau Lleol eraill wrth fynd i'r afael â hi. Nid yw'n ddymunol tynnu athrawon o Awdurdodau Lleol eraill felly mae angen dull gweithredu cenedlaethol. Mae hefyd yn bwysig cael uwch arweinwyr da ym maes addysg cyfrwng Cymraeg.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y model a oedd yn cael ei dreialu ym Mhlasdwr ar gyfer mwy o Gymraeg drwy'r ffrwd Saesneg a gofynnwyd am wybodaeth ar sut y byddai cynnydd yn cael ei fonitro ac ar gynlluniau i ddatblygu ac ymestyn y model ymhellach. Dywedodd swyddogion fod cynnydd da yn cael ei wneud ar yr ysgol. Roedd y Cyngor yn bwriadu mapio'r model yn fanylach cyn penodi pennaeth. Mae'r model yn seiliedig ar ymchwil o Wlad y Basg lle mae nifer o wahanol fodelau wedi cael eu defnyddio i gynyddu'r defnydd o'r iaith Fasgeg yn llwyddiannus i lefelau uchel. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch ymchwil allanol i lwyddiant y model.

- Nododd yr Aelodau nad oedd hyd yn oed canlyniadau TGAU gradd uchaf yn y Gymraeg o reidrwydd yn gwneud myfyriwr Saesneg iaith gyntaf yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae yna wahanol ddulliau o ddysgu'r iaith sy'n cael ei hymarfer mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Nid yw'n ddymunol i gyfran fawr o'r boblogaeth deimlo dan anfantais oherwydd eu hanallu neu ddiffyg hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Cynlluniau Gweithredu sy'n ddyledus erbyn mis Medi 2022 yn cynnwys mwy o fanylion ar sut y byddai deilliannau'r Cynllun Strategol yn cael eu cyflawni. Dywedodd swyddogion fod y ddogfen yn gynllun strategol 10 mlynedd ac felly nid oedd yn bosibl darparu manylion llawn am yr holl gamau. Fodd bynnag, mae mwy o eglurder wedi'i ddarparu erbyn hyn. Mae angen i'r Cynlluniau Gweithredu gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2022. Mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys manylion am sut y bydd y Cynlluniau Gweithredu yn cael eu nodi.

- Holodd yr aelodau am y strategaeth o wneud cyfrwng Cymraeg yn opsiwn delfrydol i rieni sy'n ystyried lle addysg, a sicrhau bod gan rieni hyder i barhau yn y cyfrwng Cymraeg o'r meithrin i'r ysgol uwchradd. Cyfeiriodd swyddogion at y gyfradd drosglwyddo uchel o'r Gymraeg i'r cyfrwng Saesneg ac amlygodd bwysigrwydd hyrwyddo addysg cyfrwng

Cymraeg a chyd-destun ehangach cefnogaeth ar gyfer yr opsiwn cyfrwng Cymraeg.

- Trafododd yr aelodau yr angen am ddeall y rhesymau pam nad oedd rhieni yn symud eu plant ymlaen i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, gan y gallai fod gan rieni bryderon dilys yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Dywedodd swyddogion fod angen dull wedi'i deilwra gydag ymchwil benodol i gymunedau sydd â nifer isel yn defnyddio'r cyfrwng Cymraeg i asesu sut y gellid codi'r nifer sy'n manteisio arnynt.

- Holodd yr aelodau am ymchwil gan athrawon Cymraeg am eu llwybrau dysgu. Dywedodd swyddogion fod dull cynhwysfawr o ymdrin ag ymchwil yn cael ei wneud ac y byddai'r awgrym yn cael ei ystyried.

- Trafododd yr Aelodau a fwriadwyd codi nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl neu dderbyn nifer o bobl oedd â pheth dealltwriaeth o'r Gymraeg ond heb hyder i'w defnyddio. Dywedodd swyddogion fod angen cydbwysedd rhwng tyfu Cymraeg o fewn y cyfrwng Saesneg a'r opsiynau trochi. Bwriad model Plasdwr yw cynyddu rhuglder Cymraeg o fewn y sector cyfrwng Saesneg ac mae disgwyl y bydd cryn dipyn o addysgu yn y Gymraeg o fewn y model.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 116 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

## 117 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

## 118 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yw dydd Mawrth 1 Mawrth 2022 am 4.30pm drwy MS Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm